ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 3 Cyfrol 16 Gorffennaf 2019

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

BETH OEDD YN DIGWYDD YN Y GOEDWIG?

Tudalen 10

GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
5.30: OEDFA'R NOS

Awst 4	Undebol Berea Newydd
Awst 11	Undebol Emaus Parch. Denzil Morgan
Awst 18	Undebol Berea Newydd Parch. Emyr Wyn Rowlands
Awst 25	Undebol Emaus
Medi 1	Gweinidog
Medi 8	Parch. Dafydd Andrew Jones
Medi 15	Gweinidog Oedfa Deulu Croeso 'Nol Taith Gerdded i ddilyn
Medi 22	
Medi 29	Parch. Iwan Llewelyn Jones
Hydref 6	Gweinidog Croeso i'r Ysgol Sul
Hydref 13	Parch. W. H. Pritchard
Hydref 20	Gweinidog Sul Diolchgarwch
Hydref 27	Walter Glyn Davies (bore) Undebol Emaus (hwyr)

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y PYTHEFNOS

Awst 4	Eirian Howells
Awst 18	Wyn Griffiths
Medi 1	Wyn Griffiths
Medi 8/15	Gareth Emlyn Jones
Medi 22	Gwenno Pritchard
Medi 29	Alwyn Ll. Ellis
Hydref 6	Alwyn Ll. Ellis
Hydref 13	Eirian Howells
Hydref 20/27	John Wynn Jones
Tach 3/10	Robat Roberts

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y DRWS

Awst 4	Delyth Oswy Shaw
Awst 18	Elizabeth Roberts
Medi 1	Elizabeth Roberts
Medi 8/15	John Griffiths
Medi 22/29	Gareth Emlyn Jones
Hydref 6/13	Arfon Evans
Hydref 20/27	Geraint Hughes
Tach 3/10	Alwyn Ll. Ellis

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

4 Awst	Sarah Buchan
11 Awst	Emaus (Undebol)
18 Awst	Enid Pritchard
25 Awst	Emaus (Undebol)
1 Medi	Gwenda Richards
8 Medi	Caren Lewis
15 Medi	Lis Jones
22 Medi	Gwawr Jones
29 Medi	Helen Morris
6 Hydref	Delyth Williams
13 Hydref	Beryl Stafford Williams
20 Hydref	Griff Jones
27 Hydref	Marian Harries
3 Tachwedd	Sara Tudor

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

Gobeithio y cewch i gyd haf wrth eich bodd. Fe fydd rhai ohonoch, mae'n siŵr, yn mynd dramor ac eraill yn aros yn nes adref – beth bynnag fydd eich hynt a'ch helynt gobeithio y cewch amser i ymlacio a mwynhau, ac os nad yw eich amgylchiadau eleni yn mynd i ganiatáu i chwi wneud hynny, gobeithio y bydd i chi dderbyn bendith a nerth yr un fath, a'r tangnefedd hwnnw sydd uwchlaw pob deall.

Ganol Gorffennaf cynhaliwyd y Gymanfa Gyffredinol yn Wrecsam. Dyma benllanw gwaith gweinyddol Eglwys Bresbyteraidd Cymru bob blwyddyn – yno y cyflwynir adroddiadau ar amrywiol agweddau gweithgarwch y Cyfundeb sy'n amrywio o graffu ar waith Llywodraeth Cymru mewn meysydd fel addysg, i drefnu a chynnal pob math o weinidogaethau, i gefnogi elusennau fel Cymorth Cristnogol a hybu cenhadaeth a pherthynas ag enwadau eraill. Mae'n syndod cymaint y mae enwad bach yn gall ei gyflawni. Llywydd newydd y Gymanfa Gyffredinol eleni yw'r Parchg Marcus Wyn Robinson, a dymunwn yn dda iawn iddo.

Ymysg yr anerchiadau a gyflwynwyd yn Wrecsam yr oedd darlith ragorol gan y Parchedig T. Evan Morgan, Caerdydd, ar 'Yr Eglwys Gynhwysol'. Byrdwn ei neges, darodd dant amlwg yng nghalon y Gymanfa, oedd bod yn rhaid i'r eglwys groesawu pawb. Dyfynnodd y Parchg Giles Fraser, ficer yn yr Elephant and Castle yn Llundain: 'an inclusive church is not an expression of secular liberalism but a fundamental Gospel imperative'. Dyna'n wir a adlewyrchir yn y Testament Newydd a dyna o hyd ystyr cenhadaeth.

Anerchiad arall a gafodd dderbyniad gwresog yn y Gymanfa oedd eiddo Llywydd Eglwys yr Alban, y Gwir Barchedig Colin Sinclair, ar 'Agenda'r Diwylliant Cyfnewidiol' ('The Changing Culture Agenda'). Mynnodd fod yn rhaid i'r eglwys newid er mwyn ymateb yn gadarnhaol i'r sefyllfa gyfoes a phatrymau ymddygiad ac agweddau newydd. Amlinellodd rai o gynlluniau Eglwys yr Alban, fydd, gobeithio, yn gwneud yr eglwys yn fwy agored a pherthnasol.

Yma, ym Merea Newydd, yr ydym yn ymwybodol iawn o'r angen i ymestyn i'r gymuned, ac i ddarparu ar gyfer ein pobl ifanc a'r plant a'r teuluoedd. Fe welwch yn y rhifyn hwn o *Ichthus*, fel ym mhob rhifyn arall, doreth o luniau o'r plant a'r ieuenctid yn mwynhau eu hunain, ac yr ydym yn hynod o ddyledus i Owain ac athrawon yr ysgol Sul a gwirfoddolwyr y clybiau am eu gweithgarwch. Bellach daeth yn bryd i atgyfnerthu a sicrhau parhad y ddarpariaeth honno drwy sefydlu

tîm o wirfoddolwyr cyson i gynllunio a chynnal y gweithgarwch sy'n cael ei arwain gan Owain. Os teimlwch y gellwch helpu, neu os oes gennych ddiddordeb yn yr agwedd yma o'r gwaith, dewch i gyswllt â mi neu Owain. Y mae dyfodol ein tystiolaeth yn dibynnu ar eich ymroddiad.

Anfonwn ein cofion yn arbennig at y cleifion a phawb sydd mewn galar a hiraeth. Dymuniadau da i'r plant fydd yn newid ysgol ym mis Medi a'r myfyrwyr fydd yn cychwyn cyrsiau newydd yn yr hydref. Gobeithio y bydd inni oll dderbyn bendith Duw yn helaeth.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

Casglu o ddrws i ddrws – amser ailfeddwl?

MANON DAVIES

Do, mi gyrhaeddodd yr wythnos – wythnos y bag coch, a dyma 'nghalon yn suddo a rhyw hen deimlad annifyr yn cnoi yn fy stumog. Dim nad ydw i'n gweld pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o waith Cymorth Cristnogol, ond am fy mod yn gwybod bod angen mynd i guro drysau tai heb wybod beth fyddai'r ymateb eleni. Dwi wedi helpu gydag wythnos Cymorth Cristnogol ers dyddiau chweched dosbarth Penweddig, pan fyddai stondin gennym o flaen Siop y Pethe i godi ymwybyddiaeth o'r elusen. Roedd siarad gyda'r cyhoedd, cael hwyl gyda ffrindiau, codi ymwybyddiaeth o waith da yr elusen (a thorri 'mraich yn y broses – ond stori arall yw honno!) yn fwynhad, yn tynnu pobl at ei gilydd ac yn codi arian i brosiectau gwerth chweil a phan ofynnwyd imi gymryd 'patsh' Miss Menai Williams rai blynyddoedd yn ôl, fedrwn i ddim gwrthod.

Ond erbyn hyn dydw i ddim mor siŵr. Ai dyma'r ffordd orau o gefnogi'r elusen? Do, mae rhai pobl wedi bod yn groesawgar iawn, ond mae nifer yn negyddol dros ben, mae eraill wedi peidio ag agor y drws, mae rhai wedi fy mychanu ac mae rhai wedi bod yn gas. Yn yr hinsawdd sydd ohoni lle mae pobl yn ddrwgdybus o unrhyw un sy'n curo ar ddrws ac yn gofyn am arian, ai dyma'r ffordd orau o hysbysebu a dathlu'r holl waith da sy'n cael ei wneud gan Gymorth Cristnogol? Mae nifer o ardaloedd yng Nghymru eisoes wedi rhoi'r gorau i'r casgliad o ddrws i ddrws ac mae'n rhaid gofyn pam. Does dim ateb gen i, ond mi rydw i'n credu ei bod hi'n bryd trafod y ffordd ymlaen.

A oes gennych chi farn am gasglu o ddrws i ddrws? Anfonwch air atom erbyn y rhifyn nesaf.

SENEDD NEWYDD SBON

BRENGAIN GLYN WILLIAMS

Yn y rhifyn diwethaf roedd Brengain Glyn Williams o'r Felinheli, a gafodd ei derbyn yn gyflawn aelod o gapel Bethania ym mis Mai, yn trafod y ffaith ei bod newydd ei hethol yn aelod o Senedd Ieuenctid Cymru. Yma mae'n sôn am ei phrofiadau ers hynny wrth iddi ymgyfarwyddo â'i rôl newydd.

Ers i mi gael fy ethol yn aelod o Senedd Ieuenctid dros Arfon fis Rhagfyr diwethaf, mae llawer wedi digwydd, ac rwyf eisoes wedi cael profiadau a fydd yn aros yn y cof am byth. Y digwyddiad cyntaf a fynychais fel ASIC (Aelod Seneddol Ieuenctid Cymru) oedd y cyfarfod rhanbarthol ym Mae Colwyn. Yno, cefais y cyfle i gwrdd â gweddill aelodau gogledd Cymru – sydd erbyn hyn yn ffindiau da. Bwriad y cyfarfod cyntaf oedd i bawb ddod i adnabod ei gilydd, a thrafod y rolau a'r cyfrifoldebau oedd ynghlwm â bod yn aelod o'r Senedd Ieuenctid. Fe wnaeth y cyfarfod hwn hefyd roi y cyfle i ni drafod ymysg ein gilydd y materion oedd o bwys i ni.

Mental health a key issue for the Youth Parliament

Ar ddiwedd mis Chwefror, daeth yn amser i'r Senedd Ieuenctid gwrdd yn ei chyfanrwydd yn y Cyfarfod Preswyl i lawr yng Nghaerdydd. Fe wnaeth yr aelodau o'r gogledd deithio i lawr ar un bws, a gweddill yr aelodau ar fws arall. Er i fws y gogledd gyrraed bron i deirawr yn hwyr oherwydd traffig, mi wnaethon ni gael y cyfle i fynd ar daith dywysiedig o amgylch y senedd, a chael gweld yn lle yn union yn y siambr yr oedden ni yn mynd i fod yn eistedd y diwrnod canlynol. Roedd cael cyfarfod gweddill yr aelodau yn brofiad anhygoel, yn enwedig o ystyried ein bod ni wedi bod yn cysylltu â'n gilydd dros y cyfryngau cymdeithasol ers cyhoeddiad swyddogol yr etholwyr.

Yn y cyfarfod ar y dydd Sadwrn, y fi oedd y cyntaf un i siarad! Dewisais 'Diwylliant Cymru a'r Iaith Gymraeg' fel fy mhrif fater i, gan fy mod i'n gweld angen i ddatblygu statws yr Iaith oddi mewn i'r gymdeithas, ac i awgrymu sut y gellid gwneud hyn. Ar ôl i'r 59 o aelodau eraill siarad, roedd hi'n bryd inni i gyd bleidleisio ar y tri mater yr hoffem ni ganolbwyntio arnyn nhw. Y tair agwedd

y gwnaethon ni benderfynu arnyn nhw oedd cymorth iechyd emosiynol ac iechyd meddwl, sgiliau bywyd ar y cwricwlwm a sbwriel a gwastraff plastig. Golyga hyn mai y pynciau yma yr ydan ni am ganolwyntio arnyn nhw, a chynnal trafodaethau a digwyddiadau fydd yn hwyluso datblygiad y gwaith.

Ar ddechrau mis Ebrill, cynhaliwyd cyfarfod rhanbarthol arall. Y tro yma, mi wnaethon ni gael ein gwahanu i dri phwyllgor, un i bob mater allweddol. Rydw i ar y pwyllgor sbwriel a gwastraff plastig, gan fy mod i'n gweld angen i wella'r agwedd hon, yn enwedig o fewn Arfon. Yn ein grwpiau, mi wnaethon ni drafod gwahanol ystadegau, a ffyrdd i weithredu er mwyn gwella'r sefyllfa sbwriel o fewn ein hetholaethau. Roedd cael ein gwahanu'n grwpiau yn beth da oherwydd fod modd i fwy o bobl gael dweud eu barn heb orfod poeni am amser. Yn ogystal â hyn, mi wnaethon ni drafod a ddylai pobl allu hawlio cosb resymol fel amddiffyniad i guro plant. Roedd y bil hwn yn datgan nad oedd rhieni yn cael cosbi eu plant drwy eu taro. Mi wnaeth y Senedd Ieuenctid yn ei chyfanrwydd bleidleisio o blaid i'r bil gael ei gyflwyno.

Rydw i hefyd wedi cael y fraint o siarad am fy mhrofiad gyda nifer fawr o bobl wahanol. Fis yn ôl, mi wnes i a Siân Gwenllïan siarad am ein cyfrifoldebau seneddol yng Nghapel Bethania, fel rhan o'r gwasanaeth Diolchgarwch. Roedd hyn yn gyfle gwych i mi gael siarad â thrigolion y Felinheli, a chael cyflwyno fy ngwaith iddyn nhw. Dwi wedi gwneud nifer o weithgareddau yn fy ysgol i hefyd, sydd yn codi ymwybyddiaeth o waith y Cynulliad.

Mi fydda i'n mynychu mwy o gyfarfodydd ymhen y flwyddyn nesaf, ac rydw i'n edrych ymlaen i gael gweithio gyda'm cyd-aelodau ar yr hyn sy'n bwysig i ni fel unigolion ac i weddill ieuenctid Cymru.

BUEN CAMINO!

Pererindod i Santiago de Compostela

CASI WYN

Buen Camino! Dyna yw'r cyfarchiad a glywir yn gyson ar y daith tuag at Santiago de Compostela – 'Siwrne dda' ichwi!

Yn ddiweddar aeth fy mam a mi i gerdded rhan fechan o'r siwrne hon, o Vigo i Santiago de Compostela. Mi rydan ni'n hoff o fynd i gerdded a phryd bynnag fydda i adref yna mi fydd y ddwy ohonom yn ceisio rhyw lwybr neu gilydd – ar hyd yr arfordir neu i'r mynydd.

Er bod gofal wrth gamu yn gymorth, does dim angen bod yn arbenigwraig ar unrhyw beth i fwynhau'r weithred syml o gerdded. Mae cerdded yn rhan o'n natur – ac yn drosiad godidog o'n gallu ni i godi a chamu ymlaen.

Mae gan pawb wrth gwrs ei reswm ei hun dros droedio llwybrau'r pererinion ond efallai yn y pen draw ein bod ni i gyd yn rhannu'r un

Modlen a Casi wedi cyrraedd pen eu taith

bwriad – y teithio cyson hwnnw sy'n cynnig parhad i'n hanturiaethau, yn cynnal dawns y galon gan wneud i'r gwaed fyrlymu.
Fe ddarllenais dro yn ôl bod pob coeden yn bererin ynddi ei hun – yn ei brigau wrth lunio'i phatrwm unigryw i gyfeiliant y nen. Dyna'r oedd Mam a finnau'n ei wneud hefyd, efallai ychydig yn llai gosgeiddig ein symud na'r coed – gydag esgidiau cryfion ac ambell ffrwyth yn ein bag, y ddwy ohonom ar ein teithiau ein hunain ond yn cyd-gerdded ar yr un pryd. Do, ambell dro mi wnaethon ni lwyddo i golli'r ffordd a bu ambell achos o anghydweld hefyd, ond am wn i bod hynny'n naturiol ac o bosib wedi cyfoethogi peth ar y profiad.

Er mai cyrchfan y bererindod benodol hon oedd eglwys Santiago – oedd yn disgwyl amdanom â'i breichiau pensaernïol celfydd, croesawgar – gwn hefyd mai ymlaen yr

â'r daith, ac nad ydi'r bererindod, yn y pen draw, byth yn darfod.

Tîm Achub Mynydd yn diolch

Derbyniodd Berea Newydd y llythyr isod gan John Grisdale o Dîm Achub Mynydd Llanberis i ddiolch am rodd ariannol ddiweddar, sef arian o gasgliad Dorcas. Ddechrau'r flwyddyn bu Mr Grisdale yn rhoi sgwrs yn y Gymdeithas am hanes a gwaith y tîm pwysig hwn.

I sylw'r Trysorydd a Gweinidog yr Eglwys

Annwyl gyfeillion,
Gallwch ddychmygu fy syndod o dderbyn eich siec hael ac annisgwyl am £250 a'r pleser aruthroi a gefais o dderbyn swm mor anrhydeddus. Diddorol oedd darllen am eich arferiad misol er budd elusennau lleol a dymunaf i chwi ddiolch o galon i'ch aelodau am eu cyfraniadau.

Mae'n wir dweud fod y rhan fwyaf o'r rhoddion a gawn fel tîm yn dod o dros Glawdd Offa – yn aml yn dilyn rhyw achos o argyfwng neu fel rhodd er cof wedi damwain angeuol. Felly mae'n bleser derbyn cydnabyddiaeth gan drigolion yr ydym yn byw yn eu plith a hynny heb gysylltiad uniongyrchol ag unrhyw drychineb penodol.

Eleni mae'r tîm wedi ei alw allan dros l20 o weithiau yn barod a'r tymor gwyliau ond ar ddechrau. Gobeithio yn arw na fydd y cyfanswm yn agos i'r 237 achlysur y llynedd.

Mae eich rhodd a'ch geiriau cynnes o werthfawrogiad yn plesio'n arw iawn.

Diolch o galon.
Yn ddiffuant iawn,
John Grisdale

PROTESTANIAETH - YR HANES A'R HER

Y PARCHEDIG MEGAN WILLIAMS

Cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol Undeb Athrofa'r Bala yn Eglwys Unedig Seilo, Llandudno, ddechrau mis Mai.

Cynhadledd i weinidogion Yr Hen Gorff oedd hon yn wreiddiol ond erbyn hyn estynnir croeso i bawb sy'n ymddiddori mewn diwinyddiaeth a hanes crefydd a phenderfynwyd mabwysiadu teitl newydd, 'Fforwm y Ffydd', i adlewyrchu hyn. Thema'r Gynhadledd eleni oedd 'Protestaniaeth – yr hanes a'r her' ac estynnodd y Parch Eric Jones, llywydd yr Undeb, groeso cynnes i'r ddau ddarlithydd, sef y Parchg Athro Emeritus Densil Morgan a'r Parchg Ganon Enid Morgan.

Seiliodd yr Athro Densil Morgan ei ddarlith ar ei gyfrol feistrolgar *Theologia Cambrensis* sydd yn olrhain datblygiad Protestaniaeth yng Nghymru rhwng 1588 a 1761. Pwysleisiodd fod gofal bugeiliol yn ganolog gan y Protestaniaid cynnar ac mai eu nod oedd ennyn duwioldeb ymhlith y bobl fel eu bod yn cymhwyso'r egwyddorion beiblaidd i'w bywyd beunyddiol.

Roedd y genhedlaeth a'i dilynodd yn fwy carismataidd ac anffurfiol, yn arfer gweddi o'r frest ac yn rhoi'r pwyslais ar y Testament Newydd yn hytrach na'r Llyfr Gweddi Gyffredin. O'u mysg hwy y daeth y Piwritaniaid Morgan Llwyd a Vavasor Powell, er nad oedd eu daliadau radical hwy yn nodweddiadol o agweddau mwy ceidwadol eu cyd-Gymry.

O'r Eglwys Anglicanaidd ddaeth i fod wedi Adferiad 1662, nid o blith y Piwritaniaid radical, y tarddodd Ymneilltuaeth Gymreig. Gruffydd Jones, Llanddowror, un o offeiriadon yr eglwys honno, oedd Seren Fore'r Diwygiad Methodistaidd. Bu ei gyfraniad fel pregethwr, trefnydd ac addysgwr yn anfesuradwy a hollbwysig yn natblygiad Ymneilltuaeth yng Nghymru.
Edrychwn ymlaen yn eiddgar at ail gyfrol yr Athro Morgan, *Theologia Cambrensis*, 1765–1900.

Seiliodd y Parchg Ganon Enid Morgan ei darlith ar ei chyfieithiad o ddwy gyfrol James Alison, *Y Dioddefus sy'n Maddau (Jesus the Forgiving Victim)*. Mae'r gwaith yn gwneud ymdrech i gysylltu damcaniaeth anthropolegol y Ffrancwr René Girard gyda Christnogaeth.

Drwy edrych ar y Beibl trwy 'sbectol 'Girardaidd' mae Enid Morgan yn gweld yr Ysgrythur mewn ffordd gwbl newydd. Os ydym am dyfu a datblygu fel Cristnogion, meddai, rhaid i'r holl garfanau o fewn Cristnogaeth wrthod trais a gwrthdaro o bob math a dilyn patrwm Iesu, Y Gwas Dioddefus, trwy wasanaethu cyd-ddyn mewn trugaredd, gwyleidd-dra, haelioni a chariad.

PLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD

OWAIN DAVIES

CLYBIAU CIC

HWYL YN Y GOEDWIG

Nos Lun 20 Mai aeth aelodau clybiau Cic Bang Bach Llai a Chic Bach a'u teuluoedd i Goedwig Penrhyn am sesiwn Ysgol Goedwig. Cafwyd llawer o hwyl yn adeiladu llochesi, chwarae gemau a rhostio *marshmallows* ar y tân. Cafwyd amser arbennig.

YMWELD Â'R MULOD

Nos Wener 24 Mai aeth aelodau Clwb CIC Felin a'u teuluoedd i ymweld â chanolfan fulod Eryri ym Moelyci, Tregarth. Cafodd y plant amser gwych yn bwydo, brwsio a charthu cwt y mulod! Hefyd cawsom gyfle i fynd ar daith natur. Roedd y cyfan yn llawer o hwyl.

CREFFTAU

Nos Lun 24 Mehefin yn CIC Bach cafwyd sesiwn grefftau arbennig iawn dan ofal yr arlunydd Mrs Jwls Williams (sef mam Gwion ac Idwal, aelodau CIC Bach). Rydym yn ddiolchgar iawn i Jwls am greu sesiwn mor ddiddorol, hwyliog ac addysgiadol.

CHWARAEON

Mae Clwb CIC Bang wedi bod yn egnïol iawn yn ystod tymor yr haf yn chwarae criced a phêl-droed yng Nghanolfan Brailsford. Mae Clwb CIC Bach wedi bod yn chwarae gemau a rownderi, a diolch i Ysgol y Faenol am gael defnyddio caeau'r ysgol.

DRINGO

Nos Fercher 19 Mehefin aeth Clwb CIC Felin i ganolfan ddringo'r Beacon. Roedd y plant – ac ambell i oedolyn hefyd – yn dringo fel mwncïod i ben y wal! Cafwyd noson hwyliog iawn.

HWYLIO

Nos Wener 28 Mehefin cafodd aelodau Clwb Felin a'u teuluoedd sesiwn hwylio fel rhan o weithgareddau Gŵyl Felin 2019. Roedd yn noson braf iawn, ac er nad oedd 'na ddim llawer o wynt cafwyd noson hwyliog (!) dros ben.

STRWYTHUR CLYBIAU CIC

O weld y fath hwyl a geir yn y clybiau, a oes gennych ddiddordeb mewn dod i gydweithio â ni?

Ein bwriad yw ffurfio tîm o bobl i gefnogi, cynorthwyo a datblygu ein clybiau CIC. Rydym wir angen eich cymorth! Cysylltwch gyda'r Gweinidog neu Owain am ragor o wybodaeth.

GWAITH CYMUNEDOL

Yn yr wythnosau diwethaf rydym wedi bod yn brysur iawn efo'r gôl pêl-droed yn mynychu digwyddiadau lleol, gan gynnwys Miri Mai Ysgol Felinheli, Ffair Haf Ysgol y Garnedd a Charnifal Gŵyl Felin. Rydym yn ffodus iawn o'r berthynas agos sydd gennym gyda'r ysgolion a'r gymuned leol, ac mae'r digwyddiadau hyn yn gyfle gwych i godi arian i'r ysgolion a chynyddu ymwybyddiaeth o'r eglwysi yn y gymuned ar yr un pryd, wrth gyfarfod teuluoedd newydd a rhannu taflenni gwybodaeth am y capeli.

Barn broffesiynol – y cyn-bêl-droediwr Owain Tudur Jones gyda gôl Berea Newydd

GWASANAETHAU

MOLIANT Y PLANT/DERBYN AELODAU

Yn dilyn cynnal dosbarthiadau derbyn yn ystod y gwanwyn trefnwyd gwasanaeth teulu arbennig ar fore Sul 19 Mai pan dderbyniwyd pump o bobl ifanc yr ofalaeth yn gyflawn aelodau. Cyflwynwyd copi o *beibl.net* iddynt a gweinyddwyd y cymun gyda'r plant yn derbyn y bara. Yn yr oedfa hefyd gwobrwywyd pawb oedd wedi dysgu'r llafur cof eleni a chyflwynwyd gwobr arbennig i Siwan Huw am iddi gwblhau rhestr y llafur cof i gyd y llynedd.

GWASANAETH PEN TYMOR/SUL Y MAER

Ar y Sul cyntaf o Orffennaf cyfunwyd yr Oedfa Pen Tymor efo Sul y Maer pryd y cawsom gwmni maer newydd Dinas Bangor, Mr John Wyn Williams, a nifer o aelodau'r Cyngor a sefydliadau lleol. Cyfrannodd amryw i'r gwasanaeth a chafwyd gair neilltuol i'r plant gan Owain, fu'n sôn am ymdrechion y teulu i hyfforddi ci bach newydd o'r enw Nela. Ei neges oedd mai Iesu Grist sy'n ein dysgu sut i fyw yn dda. Bendithiwyd y Maer a Chyngor y Ddinas gan y Tra Pharchedig Kathy Jones, Deon Bangor.

Ar ôl y gwasanaeth aeth aelodau'r clybiau CIC ac ysgol Sul Berea Newydd ar eu trip pen tymor. Y flwyddyn yma aethom i'r ganolfan nofio newydd SC2 yn y Rhyl (sef yr hen Sun Centre). Wedi bod yn nofio

Efa Huw Williams (Berea Newydd), Brengain Glyn Williams a Non Gwenllian Vaughan Jones (Bethania) ac Ela Vaughan Roberts a Iolo Evans Jones (Berea) a gafodd eu derbyn gan y Parch. Elwyn Richards

bu'r plant a'r ieuenctid yn cymryd rhan yn y gweithgaredd Tag Active. Cafwyd diwrnod hapus iawn a llawer o hwyl.

OEDFA'R ŴYL

Ar ddydd Sul 30 Mehefin yn y Felinheli cafwyd gwasanaeth teuluol bendithiol iawn yn y Marcî. Roedd Clwb Capel Felin yn cymryd rhan flaenllaw yn y gwasanaeth. Roedd pawb wedi dotio at gyfraniad y plant.

Rhai o'r plant lleiaf a gymerodd ran ym Moliant y Plant gyda'r arweinydd, Heddwen Lois.

Y trip pen tymor i SC2

MASNACH DEG

Cofiwch bob amser ein bod wedi cytuno fel eglwys i ymrwymo i Fasnach Deg, felly cofiwn ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg, megis coffi, siwgr a bisgedi, yn ein holl gyfarfodydd.

DYDDIADUR MILWR IFANC

ELWYN RICHARDS

Cyfrol i bori ynddi yn hytrach na'i darllen o'i chwr yw'r gyfrol hon. Ynddi ceir dyddiadur y Parchedig Stephen Owen Tudor am 1918 pan oedd yn filwr ifanc gydag Adran Arwyddo y Gwarchodlu Cymreig yn y ffosydd yn Ffrainc, a 1919 wedi iddo ddychwelyd i Gymru.



Cipiodd y Rhyfel Mawr filoedd o fechgyn Cymru o'u cynefin ac oddi wrth eu teuluoedd a'u bwrw i'r danchwa.

Disgrifio'u bywyd a'u hamgylchiadau wna'r dyddiadur am 1918, ac yn fwy na dim ymateb un ohonynt i'r argyfwng. Mewn llythyr at ei ewythr dyddiedig 26 Tachwedd 1917 a ddyfynnir ar ddechrau'r gyfrol, cawn Stephen Owen Tudor yn bedair ar hugain oed yn ystyried yr argoelion am heddwch ac agwedd rhai tuag at y milwyr: "*Money first, beer second, bread next* ac os bydd yn gyfleus gellir meddwl wedyn am y bechgyn sydd yn eu dioddefaint, gellir anfon ambell i barsel iddynt, ac y mae ambell i un yn meddwl pan fydd wedi gwneud hynny y bydd wedi gwneud popeth drostynt."

Ganwyd S. O. Tudor yn Llwynygog, Staylittle, yn 1893 a bu'n amaethu ac yn cyd-weithio â'i dad yn prynu a gwerthu anifeiliaid ac offer amaethyddol cyn mynd i'r fyddin ac wedi hynny. Mae yn y dyddiadur gyfeiriadau fyrdd at ffair a marchnad a phrynu a gwerthu, a hynny'n gymysg â chyfeiriadau at oedfaon a phregethwyr a phregethau. Ceir adnodau a darnau o emynau a llawer o ymholi a myfyrio ar yr ysgrythur. Nid yw'n syndod o gwbl i S.O. Tudor droi cefn ar fyd amaeth a mynd yn ymgeisydd am y weinidogaeth. Wedi gyrfa addysgol ddisglair yng Ngholeg Diwinyddol Unedig Aberystwyth, Coleg Lincoln Rhydychen a'r Union Theological Seminary, Efrog Newydd, ordeiniwyd ef yn 1927 ac aeth yn weinidog i'r Gaerwen a Phensarn Berw, cyn symud i'r Tabernacl, Porthmadog ac yna i gapel Moriah, Caernarfon. Gwasanaethodd fel caplan yn y fyddin yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac y mae'n ddi-os mai'r profiadau a amlinellir yn y dyddiadur oedd ei bennaf cymhelliad dros wneud hynny.

Y mae'r cofnod ar gyfer 19 Hydref 1918 yn dechrau ag adnod o Lythyr Cyntaf Ioan sy'n sôn am gariad yn bwrw allan ofn (1 In. 4:18), ac yna aiff yr awdur rhagddo i sôn am 'y nos Sadwrn ryfeddaf a aeth dros fy mhen erioed':

… ond fe ddechreuodd y gelyn daflu tân atom nes collwyd mwy o ddynion o fy nghwmpas, a chredais innau yn sicr fod fy number i fyny. '*Wrth dy ystlys y cwymp mil a dengmil wrth dy ddeheulaw ond ni ddaw yn agos atat ti*'.

Y mae'r gyfrol yn olrhain amgylchiadau daearol a phererindod ysbrydol S. O. Tudor; ceir ynddi gyfeiriadau cartrefol a chipolwg ar fywyd cefn gwlad Cymru ganrif yn ôl yn ogystal â myfyrdod dwfn ar ffydd a bywyd sydd mor berthnasol heddiw ag erioed.

Diolch i'r Parchg Anna Jane Evans am drawsgrifio dyddiadur ei thaid, i Huw Tudor am ei gyflwyniad a'i ragymadrodd a'i nodiadau mynych ar ddyddiadur ei dad, ac i Wasg y Lolfa am gyhoeddi.

Stephen Owen Tudor, *Dyhead am Heddwch*, Y Lolfa, 2018 (£9.99)

RHODD GAN GÔR MIZORAM

Mae yna rai a oedd yn rhan o'r gynulleidfa niferus a gafwyd yn nghyngerdd Côr Synod Mizoram ym Merea Newydd fis Ebrill, pan oedd y capel yn llawn dop, yn dal i sôn gymaint o wledd a gawsant y noson honno. Ac yn awr fe fydd gennym rywbeth gweledol i'n hatgoffa am ymweliad y côr o ogledd-ddwyrain yr India. Fe gyflwynodd llywydd Synod Mizoram rodd i Berea Newydd fel arwydd o ddiolch am y croeso a gawsant yma ac i ddathlu'r cysylltiad rhwng yr achos a Mizoram sy'n mynd yn ôl i gyfnod y diweddar Alwyn a Mair Roberts a fu'n byw ac yn gweithio yn y dalaith am gyfnod. Mae'r addurn wal hardd, wedi'i wneud o fambŵ ac edau, bellach yn hongian yn y cyntedd i bawb gael ei weld. Derbyniwyd hefyd CD o ganeuon y côr ac mae hwnnw ar gael i unrhyw un ei fenthyg: holwch y gweinidog neu un o'r swyddogion.

Y GYMANFA GYFFREDINOL
DARLITHOEDD NODEDIG

ELWYN RICHARDS

Dau o uchafbwyntiau'r Gymanfa Gyffredinol yn Wrecsam eleni oedd y ddwy ddarlith gyhoeddus – y Ddarlith Davies sy'n cael ei thraddodi'n flynyddol gan weinidog ordeiniedig ar ryw bwnc yn ymwneud â chrefydd, a darlith Cymdeithas Hanes Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Y Parchg T. Evan Morgan, Caerdydd, ymgymerodd â'r naill, a'r Parchg Gerallt Lloyd Evans, Môn, â'r llall.

Pwnc Evan Morgan oedd 'Yr Eglwys Gynhwysol'. Ei neges ganolog oedd bod yn rhaid i'r eglwys adlewyrchu agwedd gynhwysol Iesu yn y Testament Newydd. Nid dewis ychwanegol oedd hynny, meddai, i ddilynwyr Crist, ond anghenraid cwbl hanfodol.

Cyfeiriodd at Iesu yn ymwneud â phob math o bobl oedd yn cael eu diystyru a'u hamharchu a'u gwthio i ymylon cymdeithas, ac o hynny, meddai, y tarddodd ffordd newydd o fyw a bywyd newydd. Dyfynnodd Brian McLaren a ddywed 'Before Christianity was a rich and powerful religion, before it was associated with buildings, budgets, crusades, colonialism or televangelism it began as a revolutionary nonviolent movement promoting a new kind of aliveness on the margins of society.'

Bod yn gynhwysol, yn ôl Evan Morgan, yw adlewyrchu cariad diamod Duw heddiw, ac aeth rhagddo i gyfeirio at amryw o eglwysi, megis eglwys Glide yn y Tenderloin yn San Francisco, a ymdrechodd mewn sefyllfaoedd anodd i wneud hynny. Pwysleisiodd hefyd y gwahaniaeth hanfodol rhwng 'ffitio i mewn' a 'pherthyn'. Wrth 'ffitio i mewn' yr ydym yn aml yn cuddio'r hyn ydym, ond y mae perthyn yn caniatáu inni fod yn ni ein hunain. Meddai Thomas Merton, 'Dechrau cariad yw'r ewyllys i adael i'r rhai a garwn fod yn hwy eu hunain yn llwyr – y penderfyniad i beidio â'u plygu i fod yr un fath â ni. Y mae cariad yn dechrau lle y derbyniwn arall fel y gwelant hwy eu hunain ac fel y maent.'

Pwnc darlith y Parchg Gerallt Lloyd Evans oedd y pregethwr William Llywelyn Lloyd (1879–1940). Pwysleisiodd pa mor bwysig yw cadw'r cof cyffredin am fawrion y gorffennol er mwyn deall a gwerthfawrogi ein hanes. 'Cof gwlad a chymdeithas a Chyfundeb; hanes y traddodiadau a berthyn iddynt, eu gwead a'u natur, eu 'identity' yn cael ei drosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall.' Dyna, meddai, yr hyn sydd erbyn hyn mewn perygl o fynd i golli, a mynnodd mai 'Ynghlwm wrth y cof hwn y mae *raison d'être* ein henwad – pregethu.'

Brodor o Fôn oedd Llywelyn Lloyd, wedi ei fagu yn y siop ym Methel, Bodorgan. Bu cryn drafod yn yr Henaduriaeth yng Nghefn Bach ar 1 Awst 1905 cyn cyflwyno ei enw i'r Gymdeithasfa i sefyll ei arholiad ordeinio. Ond daeth yn bregethwr mwyaf poblogaidd ei gyfnod a'i nodwedd

Y Parchg. T. Evan Morgan

Y Parchg. Marcus Wyn Robinson yw llywydd newydd y Gymanfa Gyffredinol eleni.
Lluniau: Gwyn Rhydderch/Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Y Parchg. Geraint Lloyd Evans

arbennig, yn ôl E. Morgan Humphreys wnaeth ei goffáu yn y *Guardian*, oedd ei allu i gyflwyno mewn modd enillgar yr apêl i ddod at Grist. Cyflwynodd y darlithydd dri darlun ohono – yn ymollwng i Ddiwygiad 1904–05, yn ymorol am y bechgyn yn ystod y Rhyfel Mawr ac yn ymroi i bregethu. Olrheiniodd y dylanwadau a fu arno a chafwyd sawl darlun cofiadwy, megis yr un o oedfa olaf Sasiwn dathlu dauganmlwyddiant y Cyfundeb yn 1935, gynhaliwyd yn y Pafiliwn yng Nghaernarfon a deg mil o bobl yn bresennol. Y Pregethwr olaf oedd Llywelyn Lloyd, yn pregethu o'r Salmau ar drugaredd Duw – trugaredd yn dyfod at yr anhaeddiannol a thrugaredd bob amser mewn pryd!

Diolch i ddau ddarlithydd arbennig am ddwy ddarlith gofiadwy.

CASGLIAD DORCAS

Casgliad sy'n cael ei wneud pan fydd pobl ar y ffordd allan o'r capel ar ôl gwasanaeth Cymun yw Casgliad Dorcas. Mae'r arian yn mynd at wahanol achosion da. Ar hyn o bryd rydym yn casglu at Fanc Bwyd y Gadeirlan fel cyfraniad tuag at y costau sy'n codi wrth ofalu bod y bobl sy'n derbyn nwyddau o'r Banc yn cael popeth sydd ei angen arnynt.

EMYN A DARLLENIAD

	EMYN	DARLLENIAD
15 Medi	OEDFA SUL CROESO 'NÔL	
22 Medi	399 'Y mae gennyf drysor' Elena Owen	Salm 1:1–3 (beibl.net) Trystan Owen
29 Medi	141 'Duw a wnaeth y byd' Fflur Jones	Salm 23 (beibl WM) Meilyr Lynch
6 Hydref	397 'Dyro gân dan fy mron' Noa Dafydd	Mathew 5:13–16, 43–45 (beibl.net) Cai Dafydd
13 Hydref	372 'Dwylo ffeind oedd dwylo' Fflur Edwards	Salm 24:1–6 (BCND) Catrin Edwards
20 Hydref	OEDFA DDIOLCHGARWCH DEULUOL	
27 Hydref	HANNER TYMOR	
3 Tachwedd	HANNER TYMOR	

BCND – Y Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig *neu* Y Beibl Cymraeg Newydd

Diolch yn fawr am eich cyfraniad

Os bydd plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall, hysbyser Menna Baines – menna@fforddpenrhos.plus.com / 07867 697921. Diolch.

COFIWCH AM DUDALENNAU BEREA AR Y GWEFANNAU!

www.gofalaethbangor.org / www.henaduriaetharfon.org

CRISTION

Mae'r cylchgrawn ar ei newydd wedd dan olygyddiaeth y Parch. Owain Llŷr Evans, Caerdydd. Mae'n ddiddorol a lliwgar a phob rhifyn yn dilyn thema arbennig.

Cyhoeddir chwe rhifyn bob blwyddyn, a chan ein bod fel eglwys yn archebu 15 neu fwy o gopïau gellir eu cael am bris gostyngol o £8 y flwyddyn.

Os hoffech dderbyn *Cristion* rhowch eich enw a'ch arian i Dr Gwilym Roberts, os gwelwch yn dda.

Y DYDDIADUR

MEDI

Mercher 4, 5.30	PWYLLGOR YSGOL SUL
Iau 5, 7.00	PWYLLGOR BLAENORIAID
Mercher 11, 2.00	CYFARFOD I'R CHWIORYDD Sgwrs a phaned a chroeso i aelodau newydd.
Sadwrn 14, 2.00	SEREMONI CYFLWYNO MEDALAU GEE Berea Newydd
Sul 15	TAITH GERDDED I DDILYN YR OEDFA DEULU Yn Llanfairfechan – manylion i'w cadarnhau
Mawrth 17	HENADURIAETH ARFON Berea Newydd, 5.00 (busnes) a 7.00 (Oedfa gyhoeddus i ordeinio blaenoriaid)
Sadwrn 21	CYNHADLEDD CRISTNOGAETH 21 Berea Newydd

Cofiwch:
BOB NOS LUN o Fedi 16 ymlaen
CIC BANG BACH: 6.15–7.15
CIC BANG: 7.30–9.00

HYDREF

Sul 6	SUL CROESO I'R YSGOL SUL: Bore Agored (trefniadau i'w cadarnhau) Berea Newydd
Mercher 9	Y GYMDEITHASFA YN Y GOGLEDD Berea Newydd
Iau 10, 7.00	Y GYMDEITHAS Alun Pritchard: Helpu Teuluoedd Tlawd yn Kenya *Llywydd: Dr Bruce Griffiths*

TACHWEDD

Iau 14, 7.00	Y GYMDEITHAS Wil Owen yn sôn am ei waith yn golygu'r *Cymro* *Llywydd: John Wynn Jones*
Llun 21, 2.00	CYFARFOD GWEDDI DIOLCHGARWCH Te i ddilyn i bawb

MWYNHAU TRIPIAU A CHREFFTAU

Llun uchaf: aelodau Clwb CIC Felin a'u teuluoedd ar ymweliad â Chanolfan Fulod Eryri, Moelyci.

Uchod ac ar y dde: sesiwn grefftau CIC Bach.